**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith y CCYSAGauC (Gorffennaf 7, 2017)**

**Nominations for the Executive Committee (7 July, 2017)**

Mae DAU o enwebiadau ar gyfer DWY swydd ar y Pwyllgor Gwaith.

There are TWO nominations for TWO positions on the Executive Committee.

**1. Alison Lewis CYSAG Abertawe**

Mae gen i radd mewn Athroniaeth o Brifysgol Abertawe ac rwyf yn fam i ddau o fechgyn. Rwyf wedi bod yn bennaeth yr Adran Addysg Grefyddol yn Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn Abertawe ers 2001. Pan gyrhaeddais yno, fy nghenhadaeth oedd chwyldroi'r adran drwy wneud yn siŵr fod pob disgybl yng Nghefn Hengoed yn cael cyfle i astudio pwnc a fyddai nid yn unig yn gymhwyster TGAU pwysig iddynt, ond yn un sydd mor gyfoethog mewn sgiliau bywyd hanfodol. Felly, er mai dim ond 2 awr y pythefnos oedd gen i ar y cwricwlwm, teilwrais y cwrs TGAU i ganiatáu iddo gael ei ddysgu o dan y cyfyngiadau hynny. Ni oedd yr ysgol anenwadol gyntaf yng Nghymru i gael cohort llawn yn ymgeisio am TGAU Astudiaethau Crefyddol, yn cynnwys pob disgybl yn ein Hadran Addysgu Arbenigol.

Mae fy adran wedi mynd o nerth i nerth, ac mewn adeg pan mae oriau pwnc yn cael eu torri ar draws y cwricwlwm, bûm yn rhagweithiol yn sicrhau mwy o amser cwricwlwm i roi addysg grefyddol gyflawn a chytbwys i'r disgyblion, yn llawn o sgiliau a gwerthoedd sydd yn hanfodol i'w bywyd fel oedolion ifanc. Mae'n destun balchder i mi fod AG yn cael ei gydnabod fel pwnc gwerthfawr yn fy ysgol ond rwy'n deall nad felly y mae hi ymhob man, ac yn teimlo mai rhan o'm gwaith yw sicrhau fod AG yn cael lle teilwng ym mhob ysgol. Nid yw 'talu gwrogaeth' i AG yn ddigon; mae'n hollbwysig fod rhwymedigaethau statudol yn cael eu glynu atynt a bod AG ystyrlon yn cael ei dysgu ar draws pob ysgol yng Nghymru.

Yn ystod fy ngyrfa addysgu hyd yma, rwyf wedi bod yn arholwr TGAU Astudiaethau Crefyddol i CBAC a chefais fy newis i weithio ochr yn ochr â Gavin Creigen fel cymedrolydd ar gyfer lefelu safoni mewn Addysg Grefyddol yn 2012. Rwyf hefyd wedi gwasanaethu ar CYSAG Abertawe am flynyddoedd lawer fel Is Gadeirydd a bellach yn Gadeirydd, ac wedi cynrychioli fy CYSAG yng nghynadleddau CCYSAGauC.

Yn ogystal â dysgu'n llawn amser, rwyf yn gweithio ar hyn o bryd gydag ERW fel Ymarferydd Arweiniol dros Addysg Grefyddol. Fy swyddogaeth yw rhoi i athrawon AG y sgiliau, yr wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i ddysgu Manyleb newydd TGAU mewn AG 2017, paratoi ar gyfer y cymhwyster newydd drwy sefydlu cyfarfodydd rhwydwaith a chreu cyfleoedd i gydweithio yn ogystal â chreu adnoddau ar blatfform digidol Llywodraeth Cymru, Hwb, i gydweithwyr yng Nghymru. Rwyf wedi cyflwyno cynnydd yr Ymarferydd Arweiniol mewn cynadleddau diweddar i'r rhwydwaith, CYSAG a CBAC.

Bûm yn rhan o brosiectau peilot Llythrennedd a Rhifedd yn fy ysgol ac rwyf wedi rhannu arfer da ymhlith cydweithwyr mewn cyfarfodydd rhwydwaith. Cyn bo hir byddaf yn datblygu agweddau o ddull gweithredu Donaldson ar Gymhwysedd Digidol drwy AG drwy gydweithio ag arbenigwyr TG i gynhyrchu cyrsiau Moodle i'r Fanyleb newydd i AG gan ddefnyddio Hwb.

Credaf y bydd fy mhrofiad yn fy ngalluogi i wneud cyfraniad gwerthfawr i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC a byddwn yn ei chael yn fraint gwasanaethu arno, er budd fy mhwnc a chydweithwyr yng Nghymru.

1. **Alison Lewis Swansea SACRE**

I am a Swansea University Philosophy graduate and mother of two boys. I have served as Head of the Religious Education Department at Cefn Hengoed Community School in Swansea since 2001. On arrival my mission was to turn the department around by ensuring that every pupil at Cefn Hengoed had the opportunity to study a subject that could not only provide them with an important GCSE qualification, but one that is so rich in essential life skills. So, despite having only 2 hours per fortnight on the curriculum, I tailored the GCSE course to allow it to be taught under these constraints and became the first non-denominational school in Wales to have full cohort entry for GCSE Religious Studies, including every pupil in our Specialist Teaching Facility.

My department has gone from strength to strength, and in a time when subject hours are being cut across the curriculum, I have been proactive in securing more curriculum time to provide pupils with well–rounded and balanced religious education, abundant in skills and values essential for life as young adults. I am proud that RE is recognised as a valuable subject in my school but I understand that this is not the same everywhere, and feel that part of my work is to ensure that RE is given its rightful place in all schools. A 'token gesture' approach to RE is not enough; it is vital that statutory obligations are adhered to and meaningful RE is being taught across all schools in Wales.

During my teaching career to date, I have been a WJEC examiner of GCSE Religious Studies and was selected to work alongside Gavin Craigen as moderator for levelling standardisation in Religious Education in 2012. I have also served on the Swansea SACRE for many years as Vice Chair and now Chairperson, and have represented my SACRE at WASACRE conferences.

In addition to my full time teaching commitment, I am currently working with ERW as a Lead Practitioner for Religious Education. My role is to equip teachers of RE with the skills, knowledge and resources necessary to teach the new 'GCSE Specification in RS 2017', to prepare for the new qualification through setting up network meetings and create collaboration opportunities as well as creating resources on the Welsh Government's digital platform, Hwb, for colleagues in Wales. I have presented the Lead Practitioner's progress at recent network, SACRE and WJEC conferences.

I have been a part of Literacy and Numeracy pilot projects in my school and have shared good practice amongst colleagues in network meetings. I will soon be developing aspects of the Donaldson approach on Digital Competency through RE by collaborating with IT specialists to produce Moodle courses for the new Specification for RS using Hwb.

I believe that my experience will allow me to make a valuable contribution to the WASACRE Executive Committee and I would find it a privilege to serve, for the good of my subject and colleagues in Wales.

2. **Gill Vaisey CYSAG Sir Fynwy**

Mae Gill Vaisey yn athrawes gymwysedig ac yn Ymgynghorydd Addysg Grefyddol sy'n arbenigo mewn addysg gynradd ac addysg y blynyddoedd cynnar.

Ar ôl astudio ar gyfer ei gradd B.Add. Anrh, gydag Astudiaethau Crefyddol fel ei phwnc arbenigol, bu'n addysgu plant oed cynradd cyn ymgymryd â swydd fel Athrawes Ymgynghorol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Ngwent a chyflawni swydd debyg wedyn gyda Morgannwg Ganol. Ers 1996 mae Gill wedi bod yn ymgynghorydd llawrydd llwyddiannus sy'n rhoi hyfforddiant a chymorth i ALlau, Esgobaethau ac ysgolion ledled Cymru a Lloegr ac mae bellach yn adnabyddus yn genedlaethol am ei gwaith gyda phlant yn y Blynyddoedd Cynnar.

Gill yw'r ymgynghorydd proffesiynol i CYSAGau Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chaerdydd a than yn ddiweddar roedd hi hefyd yn cefnogi CYSAGau Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf.

Mae ei phrofiad perthnasol yn cynnwys:

- Aelod gweithgar o Gymdeithas CYSAGau Cymru ers ei sefydlu;
- Wedi bod yn darparu arbenigedd proffesiynol i CYSAGau Blaenau Gwent a Sir Fynwy ers 1996 ac i CYSAG Caerdydd ers 2014;
- Wedi ysgrifennu Meysydd Llafur Cytûn ar gyfer AG a deunydd cymorth, cynllunio ac asesu cynhwysfawr cysylltiedig i athrawon ar gyfer sawl Awdurdod Lleol yng Nghymru;
- Hyfforddiant a gwaith ymgynghorol rheolaidd ar gyfer athrawon cynradd ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ledled Cymru a Lloegr;
- Rhoi hyfforddiant a chyngor i Awdurdodau Lleol ac Esgobaethau Eglwysig ledled Cymru a Lloegr;
- Aelod o'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol, y bu'n gadeirydd arno am dair blynedd;
- Cynhyrchu llyfrau ac adnoddau i athrawon ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a gomisiynwyd gan ACCAC;
- Chwarae rhan a rhoi cymorth yn uniongyrchol gyda phrosiectau amrywiol gan yr Adran Addysg a Sgiliau;
- Cynhyrchu a chyhoeddi adnoddau am ddim ac i'w prynu (Books at Press) i gefnogi Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru a chwricwlwm EYFS a CA1 yn Lloegr; a'r Curriculum for Excellence yn yr Alban;
- Cysylltiadau clòs ag ystod eang o gymunedau ffydd a chynrychiolwyr unigol;
- Aelod o Gymdeithas Ymgynghorwyr ac Arolygwyr AG y DU (AREIAC) ac ar hyn o bryd aelod o'r pwyllgor gwaith gan gynrychioli Cymru a darparu seminarau'n rheolaidd ar gyfer ei haelodau;
- Cynrychiolydd CCYSAGauC ar Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr;
- Wedi mynychu cynhadledd EFTRE (Fforwm Ewropeaidd i Athrawon AG) yn Vienna;
- Cynrychioli CCYSAGauC yng Nghyfarfod Bwrdd EFTRE yn Athen, Ebrill 2017;
- Mynychu cyfarfod gyda Kirsty Williams a Swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, Mawrth 2017, fel rhan o gynrychiolaeth o Banel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG);
- Gweithio gydag aelodau PYCAG i gefnogi'r Ysgolion Arloesi wrth iddynt ddatblygu elfen AG o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau; a
- Mynychu cyfarfodydd â'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yr ethos sy'n sail i'w hymgynghoriaeth yw hybu a chefnogi rhagoriaeth mewn addysg grefyddol mewn ysgolion a sefydliadau addysgol. Byddai Gill yn falch o gael cefnogi a rhannu ei harbenigedd gyda Phwyllgor CCYSAGauC.

**2. Gill Vaisey Monmouthshire SACRE**

Gill Vaisey is a qualified teacher and Religious Education Consultant specialising in primary and early years education.

After studying for her B.Ed. Hons. Degree, with Religious Studies as her specialist subject, she taught primary age children before taking up a post as Advisory Teacher for Religious Education in Gwent followed by a similar post with Mid Glamorgan. Since 1996, Gill has been a successful freelance consultant providing training and support for LAs, Dioceses and schools across Wales and England and is now a nationally known figure in the UK for her work with RE and Early Years children.

Gill is the professional consultant to Blaenau Gwent, Monmouthshire and Cardiff SACREs and until recently also supported the Vale of Glamorgan and Rhondda Cynon Taf SACREs.

Relevant experiences include:

- An active member of the Welsh Association of SACREs since its inception and currently an Executive Member;
- Providing professional expertise to Blaenau Gwent and Monmouthshire SACREs since 1996 and to Cardiff SACRE since 2014;
- Writing Agreed Syllabuses for RE and accompanying comprehensive teachers' support, planning and assessment material for several Local Authorities in Wales;
- Regular training and consultancy for primary teachers and Early Years practitioners across both Wales and England;
- Providing training and advice to Local Authorities and Church Dioceses across Wales and England;
- A member of the National Advisory Panel for Religious Education, of which she was chairperson for three years;
- Producing Key Stage 1 books and teachers' resources commissioned by ACCAC;
- Direct involvement and support with various DfES projects;
- Producing and publishing free and purchasable resources (Books at Press) to support the Foundation Phase Curriculum in Wales, the EYFS and KS1 curriculum in England and the Curriculum for Excellence in Scotland;
- Close links with a wide range of faith communities and individual representatives;
- A member of the UK Association of RE Advisers, Inspectors and Consultants (AREIAC) and currently executive committee member representing Wales and regularly providing seminars for its members;
- WASACRE representative on the REC (Religious Education Council for England and Wales);
- Attended 2016 EFTRE (European forum for Teachers of RE) conference in Vienna;
- Represented WASACRE at EFTRE Board Meeting in Athens, April 2017;
- Attended meeting with Kirsty Williams and other Welsh Government Officials, March 2017, as part of the NAPfRE delegation of representatives;
- Actively working with NAPfRE members to support the Pioneer Schools in the development of the RE element of the Humanities Area of Learning and Experience; and
- Attending Welsh Government convened meetings with the Pioneer Schools Network.

The ethos behind Gill's consultancy is to promote and support excellence in religious education in schools and educational establishments.

**Enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd y CCYSAGauC (7 Gorffennaf 2017)**

**Nominations for the position of Vice Chair for the Wales Association of SACREs (7 July 2017)**

1. **Y Cyng. Ernie Galsworthy  CYSAG Merthyr Tudful**

Bûm yn aelod o GYSAG ers Mai 2012, wedi i mi gael fy ethol i'r cyngor. Cyn hynny bûm yn gynghorydd rhwng 1987 a 2004, a gwasanaethais ar GYSAG Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod hwn a mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC yn ogystal.

Cefais fy magu mewn amgylchedd Bedyddwyr Cymreig, a than yr oeddwn yn 5 oed bûm yn byw gyda'm mam-gu, Cymraes nad oedd, yn anffodus, wedi dysgu Cymraeg i fy mam ond a wnaeth ei gorau i'm haddysgu i yn yr iaith. Wedi ei marwolaeth, fodd bynnag, collais yr iaith, ac ni ailafaelais ynddi tan y 1990'au hwyr pan fynychais gwrs WLPAN ym Mhrifysgol Caerdydd.

Rwy'n coleddu safbwynt heddychol, a'm harwyr yw Mahatma Gandhi, John Lennon ac Iesu Grist. Yr oeddynt ill tri'n heddychwyr, a chafodd y tri eu diwedd trwy drais. Mae bod yn heddychwr yn ddull peryglus o fyw, ac weithiau mae angen dewrder i fyw buchedd o'r fath.

Rwyf hefyd yn gynrychiolydd y cyngor ar y Pwyllgor Awdurdodau Lleol Di-niwclear; rwy'n credu bod hynny'n adlewyrchu fy nymuniad i fyw mewn heddwch.

Yr oedd fy nhri arwr yn Hindŵ, yn anffyddiwr ac yn Gristion. Er nad wyf yn cyd-fynd yn llwyr â safbwyntiau fy arwyr, mae gennyf barch mawr tuag atynt, ac rwy'n credu bod parch tuag at bob crefydd yn sylfaenol i heddwch byd-eang.

1. **Councillor Ernie Galsworthy  Merthyr Tudfil SACRE**

I have been a SACRE member since May 2012 after I was elected to council. I was previously a councillor from 1987 until 2004, and served on Merthyr Tydfil SACRE during this period and also attended WASACRE meetings.

I was brought up in a Welsh Baptist environment and until the age of 5 lived with my grandmother, a Welsh speaker, who unfortunately did not teach Welsh to my mother although, did her best to teach me. Consequently after her death I lost the language and did not pick it back up again until the late 1990's when I attended a WPLAN course at Cardiff University.

I hold pacifist views and my great heroes are Mahatma Gandhi, John Lennon and Jesus Christ, All three were pacifists and met violent deaths. Being a pacifist is a dangerous way of living and sometimes courage is needed to live this life.

I am also the council representative on the Committee of Nuclear Free Local Authorities which I believe reflects how I wish to live in peace.

My three heroes were a Hindu, an atheist and a Christian. While I do not believe totally in the views of my heroes I have great respect for them and it is respect for all religions which I believe is fundamental for world peace.

**2. Gill Vaisey CYSAG Sir Fynwy**

Mae Gill Vaisey yn athrawes gymwysedig ac yn Ymgynghorydd Addysg Grefyddol sy'n arbenigo mewn addysg gynradd ac addysg y blynyddoedd cynnar.

Ar ôl astudio ar gyfer ei gradd B.Add. Anrh, gydag Astudiaethau Crefyddol fel ei phwnc arbenigol, bu'n addysgu plant oed cynradd cyn ymgymryd â swydd fel Athrawes Ymgynghorol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Ngwent a chyflawni swydd debyg wedyn gyda Morgannwg Ganol. Ers 1996 mae Gill wedi bod yn ymgynghorydd llawrydd llwyddiannus sy'n rhoi hyfforddiant a chymorth i ALlau, Esgobaethau ac ysgolion ledled Cymru a Lloegr ac mae bellach yn adnabyddus yn genedlaethol am ei gwaith gyda phlant yn y Blynyddoedd Cynnar.

Gill yw'r ymgynghorydd proffesiynol i CYSAGau Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chaerdydd a than yn ddiweddar roedd hi hefyd yn cefnogi CYSAGau Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf.

Mae ei phrofiad perthnasol yn cynnwys:

- Aelod gweithgar o Gymdeithas CYSAGau Cymru ers ei sefydlu;
- Wedi bod yn darparu arbenigedd proffesiynol i CYSAGau Blaenau Gwent a Sir Fynwy ers 1996 ac i CYSAG Caerdydd ers 2014;
- Wedi ysgrifennu Meysydd Llafur Cytûn ar gyfer AG a deunydd cymorth, cynllunio ac asesu cynhwysfawr cysylltiedig i athrawon ar gyfer sawl Awdurdod Lleol yng Nghymru;
- Hyfforddiant a gwaith ymgynghorol rheolaidd ar gyfer athrawon cynradd ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ledled Cymru a Lloegr;
- Rhoi hyfforddiant a chyngor i Awdurdodau Lleol ac Esgobaethau Eglwysig ledled Cymru a Lloegr;
- Aelod o'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol, y bu'n gadeirydd arno am dair blynedd;
- Cynhyrchu llyfrau ac adnoddau i athrawon ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a gomisiynwyd gan ACCAC;
- Chwarae rhan a rhoi cymorth yn uniongyrchol gyda phrosiectau amrywiol gan yr Adran Addysg a Sgiliau;
- Cynhyrchu a chyhoeddi adnoddau am ddim ac i'w prynu (Books at Press) i gefnogi Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru a chwricwlwm EYFS a CA1 yn Lloegr; a'r Curriculum for Excellence yn yr Alban;
- Cysylltiadau clòs ag ystod eang o gymunedau ffydd a chynrychiolwyr unigol;
- Aelod o Gymdeithas Ymgynghorwyr ac Arolygwyr AG y DU (AREIAC) ac ar hyn o bryd aelod o'r pwyllgor gwaith gan gynrychioli Cymru a darparu seminarau'n rheolaidd ar gyfer ei haelodau;
- Cynrychiolydd CCYSAGauC ar Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr;
- Wedi mynychu cynhadledd EFTRE (Fforwm Ewropeaidd i Athrawon AG) yn Vienna;
- Cynrychioli CCYSAGauC yng Nghyfarfod Bwrdd EFTRE yn Athen, Ebrill 2017;
- Mynychu cyfarfod gyda Kirsty Williams a Swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, Mawrth 2017, fel rhan o gynrychiolaeth o Banel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG);
- Gweithio gydag aelodau PYCAG i gefnogi'r Ysgolion Arloesi wrth iddynt ddatblygu elfen AG o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau; a
- Mynychu cyfarfodydd â'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yr ethos sy'n sail i'w hymgynghoriaeth yw hybu a chefnogi rhagoriaeth mewn addysg grefyddol mewn ysgolion a sefydliadau addysgol. Byddai Gill yn falch o gael cefnogi a rhannu ei harbenigedd gyda Phwyllgor CCYSAGauC.

Hoffai Gill gael y cyfle i gefnogi CCYSAGauC fel Is Gadeirydd yn ystod y cyfnod pwysig hwn o newid a datblygu'r cwricwlwm.

**2. Gill Vaisey Monmouthshire SACRE**

Gill Vaisey is a qualified teacher and Religious Education Consultant specialising in primary and early years education.

After studying for her B.Ed. Hons. Degree, with Religious Studies as her specialist subject, she taught primary age children before taking up a post as Advisory Teacher for Religious Education in Gwent followed by a similar post with Mid Glamorgan. Since 1996, Gill has been a successful freelance consultant providing training and support for LAs, Dioceses and schools across Wales and England and is now a nationally known figure in the UK for her work with RE and Early Years children.

Gill is the professional consultant to Blaenau Gwent, Monmouthshire and Cardiff SACREs and until recently also supported the Vale of Glamorgan and Rhondda Cynon Taf SACREs.

Relevant experiences include:

- An active member of the Welsh Association of SACREs since its inception and currently an Executive Member;
- Providing professional expertise to Blaenau Gwent and Monmouthshire SACREs since 1996 and to Cardiff SACRE since 2014;
- Writing Agreed Syllabuses for RE and accompanying comprehensive teachers' support, planning and assessment material for several Local Authorities in Wales;
- Regular training and consultancy for primary teachers and Early Years practitioners across both Wales and England;
- Providing training and advice to Local Authorities and Church Dioceses across Wales and England;
- A member of the National Advisory Panel for Religious Education, of which she was chairperson for three years;
- Producing Key Stage 1 books and teachers' resources commissioned by ACCAC;
- Direct involvement and support with various DfES projects;
- Producing and publishing free and purchasable resources (Books at Press) to support the Foundation Phase Curriculum in Wales, the EYFS and KS1 curriculum in England and the Curriculum for Excellence in Scotland;
- Close links with a wide range of faith communities and individual representatives;
- A member of the UK Association of RE Advisers, Inspectors and Consultants (AREIAC) and currently executive committee member representing Wales and regularly providing seminars for its members;
- WASACRE representative on the REC (Religious Education Council for England and Wales);

- Attended 2016 EFTRE (European forum for Teachers of RE) conference in Vienna;
- Represented WASACRE at EFTRE Board Meeting in Athens, April 2017;
- Attended meeting with Kirsty Williams and other Welsh Government Officials, March 2017, as part of the NAPfRE delegation of representatives;
- Actively working with NAPfRE members to support the Pioneer Schools in the development of the RE element of the Humanities Area of Learning and Experience; and
- Attending Welsh Government convened meetings with the Pioneer Schools Network.

The ethos behind Gill's consultancy is to promote and support excellence in religious education in schools and educational establishments.

Gill would like the opportunity to support WASACRE as Vice Chair during this important period of curriculum development and change.